# Adroddiad Arolygu

**Amanda Austin**

**Llandysul**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

03/02/2022

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Ebrill 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae plant yn teimlo yn ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus iawn yn y lleoliad hwn. Mae'r plant wedi ffurfio cydberthnasau cadarnhaol gyda'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch cryf ac yn sensitif i eraill.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau manwl sy’n hybu llesiant y plant. Ceir awyrgylch gofalgar ac mae’r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a saff. Mae yna lawer o le a digon o gyfleusterau i annog plant i chwarae a dysgu. Mae teganau ac offer chwarae yn briodol i oedran ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn gyfeillgar.

Mae’r gwarchodwr plant yn rheoli’r lleoliad yn effeithiol ac yn cydymffurfio â holl reoliadau AGC. Mae datganiad o ddiben clir sy'n darparu darlun manwl gywir o'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu ei gwerthoedd am ddysgu ac ymddygiad gyda'r plant. Mae’r gwarchodwr plant yn gweithio’n dda gyda rhieni i roi gwybodaeth iddynt am y gwasanaeth a llesiant a gofal y plant.

## Llesiant

Mae plant yn chwarae'n rhydd, gan ddewis eu teganau eu hunain yn annibynnol. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn ac yn gwybod bod eu dymuniadau a'u hanghenion bob amser yn cael eu hystyried. Clywsom blant yn gofyn am y teganau yr oeddent eu heisiau allan o'r storfa ac roedd y gwarchodwr plant yn parchu eu dymuniadau. Mae'r plant yn siarad yn agored â'r gwarchodwr plant ac mae'n amlwg bod y plant wedi ffurfio ymrwymiadau hoffter cadarnhaol gyda hi a'i theulu. Mae'r plant yn mynd ati'n hapus i sgwrsio'n frwdfrydig am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn gyffrous i gyfarch aelodau ei theulu, gan weiddi eu henwau â llawenydd.

Mae'r plant yn rhannu eu teimladau'n agored oherwydd eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny ac yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn ystyried eu hoffterau, eu casbethau a'u hanghenion yn drylwyr. Roedd un plentyn yn ansicr iawn o ymwelwyr ac yn ceisio cysur, mwythau a sicrwydd gan y gwarchodwr plant. Gwnaeth ymgartrefu yn fuan wedyn. Mae plant yn chwarae'n hapus ac yn fodlon. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn rhagorol ac mae gan y plant ddiddordeb a brwdfrydedd mawr. Mae'r plant yn mwynhau gwrando ar hwiangerddi y mae'r gwarchodwr plant yn eu canu iddynt ac maent yn chwerthin ac yn gwenu ac yn ymuno pan fyddant yn dymuno. Maent yn sgwrsio ac yn clebran yn hapus, gan chwarae mig gyda'i gilydd. Mae'r plant yn hyderus ac yn chwilfrydig. Maent yn gofyn cwestiynau i gael gwell dealltwriaeth o bethau ac yn archwilio ac ymchwilio i'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn y lleoliad.

Mae'r plant yn mynegi empathi clir ac maent yn sensitif iawn i anghenion eraill. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch. Mae'r plant yn sgwrsio â ni ac yn rhannu eu brwdfrydedd am y teganau maent yn chwarae gyda nhw. Maent yn chwerthin yn afreolus ar y sŵn uchel a wnânt wrth ysgwyd yr wyau plastig yn y cynhwysydd. Mae'r plant yn chwarae'n braf gyda'u ffrindiau, gan gymryd eu tro a rhannu gyda'i gilydd. Pan fydd plant yn anghytuno, maent yn ymateb yn gyflym i'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn dangos parch at eiddo a phobl ac yn cymryd rhan wrth benderfynu a dilyn y rheolau.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n llawn ac mae ganddynt ddiddordeb mawr yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau ystod ardderchog o gyfleoedd diddorol, tu fewn a thu allan, ac yn dewis pryd y dymunant ymlacio a chael amser tawel. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i ddewis eu chwarae eu hunain ac i roi barn ar eu tasgau. Gwelsom y plant yn mwynhau chwarae rôl rhiant a gofalu am y doliau. Gwelsom hefyd y plant yn datblygu eu creadigrwydd ac yn archwilio'r blwch offer chwarae rôl a'r gegin chwarae.

Caiff y plant nifer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sy’n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain – er enghraifft, golchi eu dwylo’n annibynnol. Mae ganddynt lawer o ddewis rhydd, gan ddewis pryd roeddent yn barod ar gyfer eu byrbryd boreol a dewis rhwng dŵr neu laeth. Mae plant yn bwyta eu cinio yn annibynnol â chyllyll a ffyrc sy'n

briodol i'w hoedran. Maent yn gyfarwydd â'u trefn ac yn tacluso eu teganau gan ddweud *“yn y bocs”.*

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch magwrol a gofalgar ac mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o sut i ddiwallu holl anghenion a galluoedd unigol. Mae hi'n ymroddedig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo dysgu a chwarae plant. Er enghraifft, dangosodd y gwarchodwr plant weithgareddau celf a chrefft i ni yr oedd y plant wedi'u cwblhau i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae’r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae hi’n cynllunio’n dda ac yn ymwybodol o gamau nesaf y plant. Mae’n monitro ac yn cofnodi cynnydd plant ar siartiau datblygiad unigol sy’n cynnwys y sgiliau a gyflawnwyd a’r rhai sy’n dod i’r amlwg. Gwelsom ei bod yn defnyddio'r wybodaeth am gynnydd datblygiadol y plant i gynorthwyo cynllunio ar gyfer y dyfodol ac mae'n teilwra gweithgareddau i anghenion unigol y plant.

Mae’r gwarchodwr plant yn deall ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau manwl ar waith, sy’n sicrhau diogelwch a llesiant personol y plant. Mae ganddi asesiadau risg manwl ar waith ac mae'n nodi ac yn rheoli risgiau yn weithredol. Mae hi'n blaenoriaethu diogelu ac mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o'i chyfrifoldebau i amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae plant yn cysgu mewn coetsis. Eglurodd y gwarchodwr plant mai dyna oedd dymuniad y rhieni, ac, ers ein hymweliad, mae hi wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni i’r plant gysgu yn y coetsis. Mae’r gwarchodwr plant wedi cwblhau’r hyfforddiant radicaleiddio Prevent ar-lein yn llwyddiannus. Mae’n ystyried iechyd a diogelwch y plant yn dda, gan storio meddyginiaeth yn ddiogel a chofnodi ac ystyried gofynion meddygol ac alergeddau plant yn glir.

Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau glanhau trylwyr ac arferion hylendid rhagorol ar waith. Er enghraifft, mae hi'n glanhau arwynebau'n rheolaidd gan ddefnyddio chwistrellydd gwrthfacterol. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i olchi a sychu eu dwylo gan ddefnyddio dŵr sebon cynnes a chadachau unigol. Mae'n golchi ei dwylo'n drylwyr cyn ac ar ôl newid cewynnau ac yn glanhau'r arwynebau newid cewynnau cyn ac ar ôl eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo menig wrth newid cewynnau ond nid oedd yn gwisgo ffedog.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn adnabod y plant yn dda iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys siart wobrwyo. Mae hi'n ymddwyn fel patrwm ymddygiad da ac yn hyrwyddo cwrteisi. Clywsom lawer o atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol a chanmoliaeth drwy gydol ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r plant eu dilyn ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros bob dim a wnânt. Mae'r rhyngweithiadau rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gynnes ac yn garedig, megis “*Hoffech chi helpu i ddewis y teganau?*” Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithiadau mewn modd cadarnhaol ac adeiladol. Mae’n atgoffa plant i *‘fod yn garedig’* a *‘bod yn ofalus’.*

Mae'r gwarchodwr plant yn gosod esiampl dda wrth weithio tuag at hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Mae'r adeilad wedi'i gloi, â gatiau, ac yn saff. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r drws ffrynt ar glo ac yn disgwyl i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan o'r safle. Mae'r safle yn groesawgar ac yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'r ystafell chwarae yn ardal agored a mawr sydd â theimlad cartrefol ac mae'n llifo'n rhydd i'r ardal fwyta a'r gegin.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol a thân effeithiol a manwl, y mae hi'n eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n goruchwylio plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer y grŵp oedran o blant y mae'n gofalu amdano. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ond nid yw'n cofnodi'r amser a gymerir i blant adael y safle. Mae'r gwarchodwr plant yn gwreiddio canllawiau coronafeirws Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant ac arferion rheoli heintiau yn drylwyr er mwyn lleihau unrhyw risg i iechyd a diogelwch plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ardal chwarae awyr agored mor aml â phosibl. Oherwydd y tywydd garw, nid oeddem yn gallu gweld y plant yn chwarae yn yr awyr agored, ond darparodd y gwarchodwr plant luniau a oedd yn dangos y plant yn mwynhau crwydro'n rhydd yn yr ardal awyr agored â gatiau. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth eang o adnoddau ar gael y tu allan i ehangu gwybodaeth a datblygiad y plant, gan gynnwys cegin fwd, tipi, llithren, beiciau, sied deganau, peli, cylchoedd, conau, tŷ bach twt, a bwrdd sialc mawr.

Y tu mewn, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ystod dda o deganau ac offer chwarae o safon ar gael i'r plant sy'n gweddu i'w hanghenion unigol. Mae gosodiad a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Cedwir y teganau a'r adnoddau mewn blychau storio priodol y mae'r gwarchodwr plant yn eu tynnu allan pan fydd plant yn dewis eu teganau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn apelgar, yn llawn o weithgareddau diddorol ac offer chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ystod eang o lyfrau a theganau ar gael i'r plant sy'n addas i'w hoedran a'u cyfnod datblygu ac sy'n adlewyrchu delweddau cadarnhaol o amrywiaeth, megis jig-sos, blociau adeiladu ac adnoddau crefft.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ac mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. Mae gan y gwarchodwr plant gymwysterau da. Mae'r cynllunio yn dda ac yn ystyrlon, gan gynorthwyo canlyniadau i'r plant. Mae hi'n darparu gwasanaeth lle mae plant wrth wraidd pob penderfyniad ac mae eu llesiant yn hollbwysig. Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n rhannu ei brwdfrydedd ag eraill. Mae ganddi ddiwylliant cryf o ddatblygiad personol parhaus. Mae'r gwarchodwr plant yn arwain trwy esiampl ac yn ceisio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr arferion gorau sy'n berthnasol i'r plant yn ei gofal. Mae partneriaethau â rhieni yn gryf ac mae cysylltiadau â gweithwyr gofal plant proffesiynol eraill sy'n ei helpu i ddarparu lefelau da o gymorth.

Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel o'i hun gyda datganiad o ddiben clir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae trafodaeth â'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn agored i syniadau newydd ac yn croesawu'r angen am welliant parhaus. Mae hi'n gweithredu hunanwerthuso yn rhagweithiol ac yn ceisio ac yn gweithredu awgrymiadau plant, eu rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill sydd â diddordeb. Roedd ei hadroddiad adolygu diwethaf ar ansawdd y gofal yn cynnwys targedau i wella'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol a manwl sy'n adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth y mae'n ei gynnig. Mae'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau perthnasol ac yn aml yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus ac yn angerddol am ei chyfrifoldebau. Mae ganddi bolisïau effeithiol ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu polisïau'n rheolaidd, yn eu rhannu â rhieni, ac yn eu gweithredu'n drylwyr yn ymarferol. Fodd bynnag, nid oedd y polisi amddiffyn plant yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hi wedi ymgyfarwyddo â dyletswydd Prevent.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldeb i hybu'r Gymraeg ac mae'n gwneud ymdrech gadarnhaol i siarad Cymraeg mor aml â phosibl â'r plant. Mae cyfathrebu â rhieni yn effeithiol ac mae hi'n rhannu dyddiadur dyddiol manwl iawn o wybodaeth, gan gynnwys yr hyn y mae'r plant wedi'i fwyta, eu patrymau cysgu, newidiadau cewynnau a gweithgareddau. Dywedodd rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn wrthym eu bod mor falch eu bod wedi dewis y gwarchodwr plant hwn. Dywed rhieni fod y gwarchodwr plant yn garedig a gofalgar ac yn rhagorol yn ei swydd. Teimlant fod cartref y gwarchodwr plant yn groesawgar, yn lân ac yn drefnus. Mae rhieni'n argymell y gwarchodwr plant hwn yn fawr.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau bod y polisi amddiffyn plant yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru.

A2 Ystyried cofnodi gwybodaeth fanylach mewn cofnodion ymarfer tân.

A3. Defnyddio ffedogau untro wrth ddelio â hylifau corfforol fel newid cewynnau.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 09/03/2022'